


Adroddiad Sasiwn y De – Tabernacl Aberaeron CYFARFOD YR HYDREF, 2019

Y Wledd yn Aberaeron

Ar ddydd Mercher y 23ain o Hydref eleni daeth tua chwe deg o gynrychiolwyr a chefnogwyr i gyfarfodydd Sasiwn y De yng Nghapel y Tabernacl yn Aberaeron.



“Blas ar yr arlwy!”

Cawsom oll groeso mawr gan aelodau'r capel gan fwynhau gwledd wrth y byrddau ynghyd ag un anhraethol fwy wrth fwrdd y cymun o dan arweiniad y Parch Ddr. Watcyn James. Atgoffodd yntau ni am syniadau Huldrych Zwingli, y diwygiwr Protestannaidd o'r Swistir. Pwysleisiai hwnnw arwyddocâd y cofio am stori'r aberth ar y Groes wrth inni

gyfranogi o'r elfennau. Cofiai pobl y Swistir yn flynyddol am frwydr Lauban yn 1339 yn erbyn teulu'r Hapsbwrg, brwydr allweddol a ddaeth yn sail eu stori genedlaethol a'u hannibyniaeth. Felly hefyd y dadleuodd Zwingli, wrth inni ddod fel Cristnogion at fwrdd y Cymun, down at ein stori ni am aberth achubol Iesu ar y groes a'i fuddugoliaeth ar y trydydd dydd. Ein braint yw cofio'r stori ryfeddol hon a'i throsglwyddo i'n plant. Megis y dywedodd yr emynydd am y fuddugoliaeth honno “Bu'n angau i'n hangau ni”.

Fel Cyfundebwyr gyda'n hetifeddiaeth ysbrydol gyfoethog yn y Gymraeg, roedd yn fater o galonidid i mi fod ein gweithrediadau gweinyddol yn y ddau gyfarfod gwaith wedi eu cynnal yn ein hiaith. Gallwn ddiolch i'n beirdd am gynnal yr iaith Gymraeg, ond dylid dathlu hefyd gyfraniad y prin sefydliadau yng Nghymru, (a Sasiwn y De a Sasiwn y Gogledd yn flaengar yn eu plith) sy'n gweinyddu trwy gyfrwng ein hiaith. I'r neb a fyn mai'r Saesneg yn unig sy'n gymwys at waith gweinyddol, y Gymraeg fu ein dewis ni. Bu inni gytuno i brynu, gwerthu a chyweirio adeiladau; i drefnu cynlluniau i ariannu mentrau cenhadol a chynlluniau eraill, a thrafod yn helaeth a thrwyadl yn esmwyth yn ein heniaith.



(O'r dde i'r chwith): Y Parch Ian Sims (Llywydd), Parch Wyn Morris (Ysgrifennydd), ynghyd â Mr Cliff Williams (Llywydd Etholedig) yn arwain y mawl

Etholwyd Mr. Cliff Williams yn ddarpar Lywydd ac fe gofnodwyd y cwbl yn gywrair yn y munudau. Yn hyn oll, gall ein Cyfundeb, yn

eglwysi lleol, yn henaduriaethau a sasiynau ymfalchïo yn y ffaith fod yr iaith yn gyhyrog yn ein plith.

Yn naturiol, cynhelir gweithrediadau Sasiwn y Dwyrain trwy gyfrwng y Saesneg, ac fe gynhelir gweinyddiad y Gymanfa Gyffredinol yn drwyadl ddwyieithog. Ond y cwestiwn a ddaeth i mi yn ystod y diwrnod hwnnw oedd hwn. I ba raddau y sylweddola'n haelodau faint o waith ymarferol ac ysbrydol a hyrwyddir ar eu rhan gan gyfarfodydd ein Llysoedd? Faint ohonynt sy'n ymwybodol o ymdrech rhai o'n blaenoriaid mwyaf ymroddgar wrth iddynt deithio i bwyllgorau, a chyfarfodydd Henaduriaeth, Sasiwn a Chymanfa Gyffredinol i wasanaethu ein Cyfundeb?

Eglurodd y Parch Meirion Morris, ein Hysgrifennydd Cyffredinol ynghylch hyn yn ei adroddiad am waith canolog ein Cyfundeb. Nododd hefyd fod y Cyfundeb yn wynebu heriau sylweddol o ran cyllid a chenhadaeth, yn bennaf am fod yr aelodau'n heneiddio ac yn prinhaus.



Croesawyr wrth y byrddau

Ond elfen hanfodol wrth ymateb i'r heriau hyn yw gwaith y tîm gweinyddol yn y Swyddfa yng Nghaerdydd wrth iddynt gario beichiau cyfreithiol, gweinyddol a phersonél sylweddol y Cyfundeb. Y gweithwyr proffesiynol yma sy'n gweithredu penderfyniadau Sasiwn a Chymanfa Gyffredinol ar ein rhan. Hwy sy'n sicrhau yn bennaf fod gofynion cyfreithiol ac elusennol helaeth ein dyddiau ni yn cael eu cadw. Buasai'n dlawd a thrafferthus arnom fel enwad heb y swyddogion hyn.

Yna yng nghyfarfod unedig y gweinidogion a'r blaenoriaid cyflwynodd y Parch Stephen Morgan hanes y rhai a ymfudodd o harbwyr y dref am yr Unol Daleithiau yn ystod yr 1830au i'r 1880au. Disgrifiodd hanes bywydau nifer ohonynt a'u disgynyddion yn y cyfandir hwnnw. Tref fach brysur oedd Aberaeron yn y cyfnod hwnnw, gyda'i thair iard longau a'i diwydiannau llewyrchus. Yng nghanol y bwrlwm hwn roedd arweiniad y capeli anghydfurfiol yn economaidd, yn ddiwylliannol ac ysbrydol yn ganolog yn y gymuned.

Arlwywyd te croeso rhagorol inni cyn gadael a'n gwaith wedi ei gwblhau. Ym mhob ystyr, cawsom wledd yn Aberaeron a mawr yw ein diolch i bawb am drefnu'r digwyddiad.

William Owen, Caerfarchell